# Polisi TCC Mewn Mannau Cyhoeddus

<table>
<tr><td>Crynodeb o'r polisi:</td><td>Mae'r polisi'n cyd-fynd â chanllawiau gweithredol Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer defnyddio Teledu Cylch Cyfyng (TCC) mewn Mannau Cyhoeddus yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.</td></tr>
<tr><td>Rhif y polisi:</td><td>012/2020</td></tr>
<tr><td>Rheoli fersiwn:</td><td>
<table>
<tr><th>Fersiwn</th><th>Dyddiad</th><th>Awdur</th><th>Rhesymeg</th></tr>
<tr><td>f1.0</td><td>13.06.2019</td><td>Marie McAvoy</td><td>Fersiwn terfynol</td></tr>
<tr><td>f1.1</td><td>25.03.2020</td><td>Siân Jones</td><td>Adolygiad blynyddol</td></tr>
<tr><td>f1.2</td><td>18.05.2020</td><td>Siân Jones</td><td>Diwygiadau</td></tr>
<tr><td>f1.3</td><td>08.06.2020</td><td>Marie McAvoy</td><td>Adolygu / diwygio</td></tr>
<tr><td>f1.4</td><td>12.04.2021</td><td>Marie McAvoy</td><td>Adolygu a diweddaru</td></tr>
<tr><td>f2.0</td><td>08.07.2021</td><td>Marie McAvoy</td><td>Adolygiad terfynol. Sylwadau Gwen James</td></tr>
<tr><td>f2.1</td><td>20.12.23</td><td>Ricky Turner</td><td>Adolygiad dwyflynyddol</td></tr>
<tr><td>f3.0</td><td>27.03.2025</td><td>Calvin Griffiths</td><td>Adolygiad blynyddol a diweddariad</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>Dyddiad gweithredu:</td><td>13.06.2019</td></tr>
<tr><td>Dyddiad adolygu:</td><td>27.03.2025<br>Bydd polisïau'n cael eu hadolygu ar ôl 12 mis i gychwyn, ac yna byddant yn cael eu hadolygu bob yn eilflwydd (fodd bynnag, gall y perchennog polisi gynnal adolygiad yn gynt os oes newidiadau mawr i ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â'r polisi, neu newidiadau mawr i brosesau ac ati).</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Hefyd, gall fod yn destun diwygiad neu adolygiad o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth; datblygiadau mewn technoleg neu offer fel y gall ddigwydd o dro i dro.* | | | |
| **Perchennog/cyswllt: (cymeradwywyd gan – Bwrdd)** | *Pennaeth Rheoli Cyswllt a Digwyddiadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu* | | | |
| **Ymgynghori a chymeradwyo** | *Bydd y polisi'n eiddo i Bennaeth Rheoli Cyswllt a Digwyddiadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu* | | | |
| **Cyfieithiad Saesneg** | *Oes* | *X* | *Nac oes* | |

# 1. Datganiad Polisi

Mae Teledu Cylch Cyfyng (TCC) yn dechnoleg sy'n cynnig ffordd effeithiol o adnabod pobl, cerbydau neu ddigwyddiadau a allai olygu bod angen i'r Heddlu neu sefydliadau partner gymryd camau gweithredu.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rhoi system TCC Man Cyhoeddus ar waith mewn 25 tref ar draws yr ardal heddlu, sy'n cynnwys dros 160 camera

Mae'n arf plismona rhagweithiol ar gyfer ymchwiliadau a phlismona ymatebol, sy'n medru atal troseddolrwydd trwy dargedu troseddwyr ac ardaloedd sy'n dioddef lefelau trosedd uwch.

Defnyddir technoleg TCC o fewn Heddlu Dyfed-Powys er mwyn helpu i ddatrys ac atal gweithgarwch troseddol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, ac aflonyddu arno, gan gynnwys mynd i'r afael â throseddwyr teithiol, terfysgwyr a Grwpiau Troseddu Trefnedig.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio'r system TCC er mwyn cynorthwyo staff a swyddogion gweithredol i gasglu tystiolaeth wrth ymchwilio i droseddau a thawelu meddyliau aelodau'r cyhoedd. Bydd y camerâu TCC yn cael eu monitro gan aelodau staff penodol, a bydd pob swyddog ac aelod staff gweithredol yn medru cael mynediad i'r delweddau TCC yn ôl yr angen ac yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Diben y polisi hwn yw adnabod y gweithdrefnau a'r protocolau sydd angen er mwyn i staff/swyddogion heddlu weithredu, lleoli a defnyddio camerâu TCC, gan ystyried

deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol. Bydd y polisi hwn yn amlinellu ac yn cyflawni'r canlynol:

- Rhoi gwybodaeth glir a diamwys ar y defnydd o offer recordio a gwylio TCC.
- Darparu fframwaith o gyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio, cadw a dadansoddi recordiad TCC.
- Bodloni gofynion Deddf Diogelu Data 2018.
- Bodloni gofynion Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU.
- Bodloni gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
- Hyrwyddo amgylchedd gweithio gwell ar gyfer staff ac unrhyw unigolyn arall a allai ddod i gysylltiad â'r system recordio TCC.
- Bodloni gofynion Codau Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth ac egwyddorion arweiniol.
- Defnyddio'r system TCC yn effeithiol er mwyn cael y gwerth gorau o'r ased hwn.
- Dwyn mwy o droseddwyr i gyfiawnder drwy gynhyrchu tystiolaeth TCC o safon.

Mae'r polisi a chanllawiau cysylltiedig yn sefydlu'r sail gyfreithiol a'r canllawiau ar gyfer defnyddio TCC Mewn Mannau Cyhoeddus Heddlu Dyfed-Powys.

# 2. Cwmpas y Polisi

Bwriadwyd y polisi hwn a chanllawiau cysylltiedig, sef y Weithdrefn Gweithredu TCC, i alluogi swyddogion i gydymffurfio â deddfwriaethau a chanllawiau ar gyfer cipio tystiolaeth i'w defnyddio mewn gweithdrefnau llys ac ymchwilio i droseddau a'u datrys.

**Egwyddorion trosfwaol ar gyfer y defnydd gweithredol o Deledu Cylch Cyfyng:**

Mae gan TCC Mewn Mannau Cyhoeddus ran hollbwysig i'w chwarae mewn cadw pobl yn ddiogel, ac ar yr un pryd, mae angen i aelodau o'r cyhoedd fod yn hyderus bod dal ganddynt hawl i'w preifatrwydd.

Bydd camerâu TCC yn:

- cydymffurfio â safonau diwydiant
- cael eu gosod mewn lleoliadau lle mae eu hangen fwyaf a lle byddant o'r budd mwyaf i ddiddordeb cyhoeddus
- cael eu gweithredu'n gyfreithlon a thryloyw gan unigolion cymwys, gyda phreifatrwydd y dinesydd unigol wrth galon penderfyniadau gweithdrefnol a system
- cael eu defnyddio'n agored, ac ni fyddant yn cael eu defnyddio'n gudd heblaw mewn amgylchiadau eithriadol a lle mae'r awdurdodau gofynnol wedi caniatáu hynny
- darparu gwybodaeth amser real am ddigwyddiadau sy'n mynd rhagddynt
- cynorthwyo i leihau trosedd ac anhrefn
- cynorthwyo ag ymholiadau am unigolion coll
- cynorthwyo â chynnal ymchwiliadau
- darparu cudd-wybodaeth
- lleihau ofn trosedd a helpu cymunedau i deimlo'n fwy diogel
- cynyddu canfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch
- cynyddu pledion euog troseddwyr a dwyn troseddwyr i gyfiawnder

- sicrhau bod defnyddwyr yn medru cyfiawnhau'r defnydd o'r system a bod ganddynt sail gyfreithiol a gwrthrychol dros ffilmio. Rhaid i hyn fod yn gymesur â'r gweithgarwch/digwyddiad dan sylw.

# 3. Pwerau a Gofynion Polisi/Cyfreithiol

Mae’r system TCC hon yn eiddo i Heddlu Dyfed-Powys, ac yn cael ei hariannu ganddo.

Mae’r system yn eiddo i Ganolfan Gyfathrebu’r Heddlu, gyda’r Pennaeth Adran yn Uwch Swyddog Cyfrifol.

Pwynt Cyswllt Sengl, sef Cydlynydd Perfformiad a Theledu Cylch Cyfyng Canolfan Gyfathrebu’r Heddlu, yw’r dynodiad ffurfiol ar lefel fwy tactegol, ac ef fydd y ffynhonnell cyngor arbenigol cydnabyddedig a chydlynydd yr holl allu a gweithgarwch camerâu gwyliadwriaeth **amlwg** o fewn y sefydliad. Yn ogystal, y Goruchwylwyr TCC fydd rheolwyr llinell cyntaf y Gweithredwyr TCC a Gweithredwyr Canolfan Gyfathrebu’r Heddlu.

Bydd y Prif Gwnstabl yn gweithredu fel y Rheolydd Data ar gyfer delweddau TCC sy’n cael eu recordio a’u cadw ar systemau’r heddlu.

Mae'r system wedi'i gosod, ei gweithredu a'i rheoli yn unol â’r Cod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth, a bydd yr Uwch Berchennog Cyfrifol yn gyfrifol am arddangos unplygrwydd prosesau ac am ystyried Cod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth. Mae hyn yn galluogi’r Heddlu i ddangos i gymunedau ein bod ni’n gweithredu arferion gorau sy’n dryloyw a chymesur.

Cedwir delweddau TCC am 31 diwrnod. Ar ôl hynny, maent yn cael eu dileu'n awtomatig, heblaw eu bod wedi’u lawrlwytho ar gyfer dibenion tystiolaethol. Os bydd delweddau wedi’u lawrlwytho ar gyfer dibenion tystiolaethol, maent yn cael eu cadw yn unol â rheoliadau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.

Cynhyrchwyd Gweithdrefn Weithredu sy'n amlinellu ac yn diffinio’r defnydd gweithredol o’r system TCC er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â’r ddeddfwriaeth briodol, y Cod Ymarfer a pholisïau’r heddlu.

Mae gan y system gefnogaeth Llywodraeth Cymru, Asiantaethau Cefnffyrdd, Cynghorau Tref a'r Cynghorau Sir unigol. Mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth wedi'u cytuno gyda'r partïon perthnasol yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau penodol.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r nodweddion gwarchodedig sydd i'w diogelu o dan y Ddeddf fel a ganlyn: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, lle dim ond yr angen am ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n berthnasol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.


Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau ar gyfer y Prosiect TCC Mannau Cyhoeddus.

| **Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
|---|---|
| **Enw:** | Calvin Griffiths |
| **Adran:** | Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu |
| **Llofnod:** | C Griffiths |
| **Dyddiad:** | 27.03.2025 |

## DEDDF HAWLIAU DYNOL

## TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â’r Ddeddf Hawliau Dynol a’i adolygu ar sail ei gynnwys a’r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â’r Ddeddf honno a’r egwyddorion sy’n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnod:** |  |
| **Dyddiad:** | 15.04.2025 |

Heddlu Police DYFED-POWYS

# 4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

Mae Dadansoddiad o Batrymau Troseddu, gan gynnwys data trosedd, digwyddiadau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a galwadau am wasanaeth, ynghyd â gwybodaeth blismona leol, yn hysbysu penderfyniadau sy'n ymwneud â lleoliadau camera.

Bydd Cydlynydd Perfformiad a Theledu Cylch Cyfyng Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n cynnal adolygiadau blynyddol o leoliadau camera. Pennaeth Rheoli Cyswllt a Digwyddiadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu fydd â chyfrifoldeb cyffredinol, fel yr Uwch Berchennog Cyfrifol.

Bydd Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob lleoliad camera, ac fe'u cyhoeddir ar wefan Heddlu Dyfed-Powys.

Yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, bydd pob safle camera'n cael ei adolygu'n flynyddol a bydd Asesiadau Effaith ar Breifatrwydd wedi'u diweddaru'n cael eu cyhoeddi pan fod angen. Pan benderfynir dileu a/neu adleoli safle camera, bydd Asesiad Effaith ar Breifatrwydd newydd yn cael ei gyhoeddi/diweddaru yn ôl yr angen.

Bydd adolygiadau blynyddol o safleoedd camera'n cynnwys adolygiad o'r mygydau preifatrwydd a weithredir i bob camera o leiaf er mwyn sicrhau bod ffenestri a/neu ddrysau unrhyw anheddau preifat yn cael eu mygydu'n briodol er mwyn lleihau ymyrraeth.

Bydd Cydlynydd Perfformiad a Theledu Cylch Cyfyng Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n gyfrifol am gynorthwyo defnyddwyr gweithredol o ran defnyddio'r system TCC.

Bydd Cydlynydd Perfformiad a Theledu Cylch Cyfyng Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n gyfrifol am ymgymryd ag adolygiadau ad hoc misol a rhoi gwybodaeth i reolwyr yn ôl yr angen ac fel yr amlinellir yn y Fframwaith Perfformiad.

Bydd y system TCC yn cael ei monitro gan Weithredwyr TCC a Gweithredwyr Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu aml-sgìl yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu ym Mhencadlys yr Heddlu, lle mae mynediad wedi'i gyfyngu. Dim ond personél awdurdodedig caiff fynediad i'r lle hwn. Bydd yr holl ddelweddau TCC yn cael eu recordio 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, a byddant yn wyliadwy yn lleol hefyd.

Yn y lle cyntaf, bydd Cydlynydd Perfformiad a Theledu Cylch Cyfyng Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n ymchwilio i unrhyw achos o dorri'r Polisi TCC, neu gamddefnydd o'r system TCC, gan staff Heddlu Dyfed-Powys neu ddefnyddwyr awdurdodedig eraill, er mwyn asesu a chanfod pa un ai a yw amodau'r polisi wedi'u torri. Bydd unrhyw achos difrifol o dorri amodau'r Polisi TCC neu gamddefnydd o'r system yn cael ei ymchwilio'n syth, a bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn cynnal ymchwiliad annibynnol er mwyn gwneud argymhellion ynghylch sut y dylid datrys y mater.

Mae'r Gweithredwyr TCC, o dan oruchwyliaeth Cydlynydd Perfformiad a Theledu Cylch Cyfyng Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, yn gyfrifol am ddwyn pob nam â'r camerâu neu offer cysylltiedig i sylw'r contractwr.

Bydd gan bob swyddog heddlu gweithredol a phob aelod staff heddlu ymchwiliol fynediad i'r system HikCentral, sy'n cael ei rheoli ar gyfer trosglwyddedigion/staff newydd drwy'r broses Mynediad at Systemau electronig.

Mae cwmni Computerised and Digital Security Systems Cyf yn gyfrifol am gynnal a chadw camerâu ac am gynhyrchu'r ddogfennaeth ofynnol ar gyfer cywiro namau ad hoc a gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ymlaen llaw.

Rhaid i ddefnyddwyr fod mewn sefyllfa i gyfiawnhau eu defnydd o'r system, sydd angen ymwneud â diben plismona, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990.

Mae defnyddwyr yn gyfrifol am rannu darnau ffilm â GEG yn ôl yr angen.

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r egwyddorion perthnasol sy'n tanategu'r Cod Moeseg.

**COD MOESEG**

**TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi ei ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyriwyd ei bod yn cydymffurfio â'r Cod hwnnw a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Calvin Griffiths |

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu |
| **Llofnod:** | |
| **Dyddiad:** | 15.04.2025 |

# 5. Gweithredu ac adolygu

Gweithredir y polisi ochr yn ochr â'r Weithdrefn Weithredu sy'n amlinellu defnydd a diben bwriadedig y system TCC Mannau Cyhoeddus a meddalwedd gysylltiedig.

Bydd cydymffurfiaeth â'r polisi a'r Weithdrefn Weithredu gysylltiedig yn cael ei fonitro drwy:

- Gweinyddwyr System yn adolygu pob cais am fynediad i'r system
- Gweinyddwyr System yn rheoli mynediad i'r system
- Gwiriadau archwilio ad hoc
- Paratoi adroddiadau misol / chwarterol / blynyddol ar ystadegau a defnydd

Atgyfnerthir gweithredu'r polisi a Chod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth drwy gyhoeddi'r Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd ar wefan yr Heddlu.

Mae tudalen TCC hefyd yn bodoli ar fewnrwyd yr heddlu, sy'n rhoi gwybodaeth i swyddogion/staff am ymarferoldeb y system a'r defnydd ohoni, yn ogystal â lleoliadau'r holl gamerâu.

Bydd Pennaeth Rheoli Cyswllt a Digwyddiadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n cymeradwyo pob adroddiad TCC Man Cyhoeddus.

### Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a

gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, bydd polisi a dogfen weithdrefn ategol yn cael eu cynhyrchu ar wahân

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol, dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addas i'w chyhoeddi?** | **Ydy/Na** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd. | Ydy | 14.04.2025 | |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |
| **Niwed – mewn cyhoeddi** | | | |

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Rhyddid Gwybodaeth**

(Mae ond angen cwblhau'r adran hon os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn datgelu)

| **Addas i'w chyhoeddi?** | **Ydy/Na** | **Dyddiad** | **Aelod o'r Uned Rhyddid Gwybodaeth sy'n gwneud y penderfyniad** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd. | | | |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol, a dilëwyd y rhannau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd. | | | |
| Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas. | | | |